

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn via WebEx, Dydd Iau, 1 Hydref 2020 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Hugh Irving (Vice-Chair), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts (Chair) and Peter Scott

Roedd yr Aelodau Cabinet – y Cynghorydd Mark Young a'r Cynghorydd Richard Mainon yn bresennol ar ôl cael eu gwahodd gan y Pwyllgor ar gyfer eitemau sy'n ymwneud â'u portffolios.

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies a Thony Thomas

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ar Y Ffyrdd (MJ), Arweinydd Tîm – Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau (PMcD), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynnydd Craffu (RE), Gwesteiwr WebEx (KJ), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland

Ar ddechrau'r cyfarfod talwyd teyrnged i'r diweddar Gynghorydd Huw Jones, a oedd wedi bod yn Gadeirydd y Pwyllgor ers 2017. Roedd Sir Ddinbych wedi colli gweithiwr caled a oedd yn ystyriol a bydd pawb yn colli ei synnwyr digrifwch. Roedd bob amser yn gydwytbodol ac yn ffrind da. Diolchwyd i'r Cynghorydd Hugh Irving am weithredu fel Cadeirydd yn ystod salwch y Cynghorydd Jones.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Paul Penlington a Peter Prendergast i'w cyfarfod cyntaf Craffu Perfformiad fel Aelodau'r Pwyllgor.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryn gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020.

Tudalen 5 – Cywirodd y Cynghorydd Ann Davies y datganiad o gysylltiad gan fod ei hŵyr yn ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd

Cywirodd y Cynghorydd Arwel Roberts y datganiad o gysylltiad hefyd, gan egluro nad oedd yn Llywodraethwr yn Ysgol Dewi Sant mwyach.

Materion sy'n Codi -

Tudalen 6 – cwestiynodd yr aelodau a oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael o ran Coed Meifod a gwasanaethau cyfleoedd gwaith eraill yn cael eu hadolygu. Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu fod ymholiadau wedi'u gwneud gyda'r Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cleientiaid, a ddywedodd fod COVID wedi achosi oedi gan fod nifer o wasanaethau wedi cau dros dro oherwydd y pandemig. Gwnaed cynnydd o ran Popty ac Y Bont.

Tudalen 7 - Ni chadarnhawyd y cyllid o £120k - £150k ar gyfer y gwaith adnewyddu i ddarparu ar gyfer adleoli gwasanaethau i Neuadd y Sir a Dinbych, a byddai'r Cydlynnydd Craffu yn gwneud ymholiadau pellach.

Tudalen 10 – Enwi a rhifo Strydoedd Cymru – gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a oedd y Cabinet yn derbyn yr argymhellion. Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu ei bod yn aros am ymateb gan Swyddogion.

Tudalen 11 – Gofynnodd Aelodau a fyddai Llyfrgell Y Rhyl yn cael ei hadleoli i safle Marchnad y Frenhines. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod gwahanol gamau i ailddatblygu safle Marchnad y Frenhines, nad oedd wedi datblygu eto.

Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - yn amodol ar y cywiriadau uchod, y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

5 CYNLLUN ADFER AR ÔL COVID-19 AR GYFER Y FLAENORIAETH ADFER CYMORTH I FUSNESAU

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel, y Cynghorydd Mark Young, Archwiliad o'r cynllun adfer Ôl Covid 19 ar gyfer yr adroddiad blaenoriaeth adfer cymorth i fusnesau (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd y cynllun adfer yn ymwneud a chymorth i fusnesau ac i aelodau ddeall y cynnydd a wnaed hyd yma, yn ogystal â'r cysylltiad â Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar adferiad economaidd.

Roedd y Coronafeirws yn argyfwng iechyd cyhoeddus, ond roedd yr effaith ar yr economi a busnesau hefyd yn hollbwysig. Yn dilyn canol trefi yn cau, roedd busnesau yn cael trafferth adfer yn y tymor canolig a'r hirdymor. Roedd hefyd yn bosibl na fydd rhai busnesau'n gallu adfer o gwbl.

Roedd pedair is-thema i'r Thema Adfer Cymorth i Fusnesau ac roedd gan bob is-thema swyddog arweiniol a fyddai'n cynhyrchu cynllun adfer ar gyfer pob is-thema:

- Canol Trefi - Mike Jones, Swyddog Arweiniol
- Cyswllt Busnesau - Gareth Roberts, Swyddog Arweiniol
- Twristiaeth - Peter Mcdermott, Swyddog Arweiniol
- Caffael - Helen Makin, Swyddog Arweiniol

Roedd y cynlluniau ar gyfer pob is-thema ar gamau gwahanol o ran eu datblygiad, fodd bynnag, roedd llawer iawn o waith cefnogi 'busnes fel arfer' yn mynd rhagddo.

Rhoddodd Mike Jones, Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd a Peter McDermott, Arweinydd Tîm - Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau ddiweddariad byr i'r aelodau ynghylch is-themâu Canol y Dref a Thwristiaeth.

Yn ystod trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhaodd swyddogion fod taliadau parcio wedi bod yn benderfyniad a ddirprwywyd gan Aelod Arweiniol yn dilyn trafodaethau gyda'r Cabinet. Ar ddechrau'r cyfnod clo, roedd parcio am ddim er mwyn helpu gweithwyr allweddol a gwirfoddolwyr. Ailgyflwynwyd taliadau ym mhob maes parcio ar 3 Awst 2020. Parhaodd nifer fach o feysydd parcio i fod am ddim am hyd at 2 awr, a fyddai'n parhau hyd at 31 Rhagfyr 2020. Hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniadau i ymestyn y cyfnod.
- Cadarnhaodd Mike Jones y byddai'n edrych i mewn i'r wybodaeth am ba mor aml y caiff toiledau eu glanhau, ac yna'n dosbarthu'r wybodaeth i'r aelodau.
- Mynegodd y Cynghorydd Paul Penlington ei anghytundeb â'r wybodaeth a roddwyd gan Mike Jones wrth iddo nodi na welodd unrhyw arwyddion o hyn ym Mhrestatyn ynghylch rheolaeth y Stryd Fawr. Cwestiynodd y cyfleuster dim dwylo ar gyfer peiriannau talu am barcio hefyd. Ymatebodd swyddogion i egluro, yn gyntaf bod sticeri ar bob peiriant maes parcio i hysbysu cwsmeriaid o ap y gellid ei gymhwyso i bob maes parcio ledled y sir. Yn ail, cadarnhawyd hefyd fod yna arwyddion ledled Stryd Fawr Prestatyn ac y gallai swyddogion ddarparu cynlluniau o leoliadau arwyddion ar gyfer y Cynghorydd Penlington. Roedd Ed Parry wedi cysylltu ag aelodau perthnasol y ward a oedd yn cwmpasu Stryd Fawr Prestatyn, er mwyn sefydlu cyfarfod safle i drafod y gwaith arfaethedig ar gyfer Stryd Fawr Prestatyn. Cadarnhaodd y Cynghorydd Hugh Irving ei fod wedi cael e-bost ac y byddai'n hapus i fynychu cyfarfod safle. Cadarnhaodd aelodau y dylid ymgynghori ag aelodau wardiau am waith sy'n mynd rhagddo, ynghyd â

Grwpiau Ardal yr Aelodau. Dylid ymgynghori a Busnesau a grwpiau Busnes yn y dyfodol hefyd.

Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi cadarnhau y dylid ymgynghori ag aelodau a grwpiau busnes gan ei fod yn rhan hanfodol o'u rôl.

- Codwyd materion ynghylch safleoedd Carafanau yn ystod y newidiadau cyfredol i'r cyfnod clo.
Cwestiynwyd sut y byddai perchnogion carafanau yn gallu cloi a diogelu eu carafanau ar gyfer y gaeaf. Cadarnhaodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cwestiynau cyffredin am barthau gwarchod iechyd ac eglurhad o'r cyfyngiadau. Y geiriau yn y canllawiau oedd "esgus rhesymol". Roedd angen i Gyngor Sir Dinbych (CSDd) gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â hyn er mwyn cael eglurhad, ac yna byddai'n ei gyfleu i bob perchennog safle carafanau. Byddai angen i swyddogion gysylltu ag ALLau eraill hefyd er mwyn sicrhau cysondeb.
- Roedd gwybodaeth am gefnogaeth i fusnesau yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru a mwy o gymorth grant i fusnesau sy'n dod o fewn parthau ar gael ar wefan CSDd.
Roedd y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor a'r Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata i dynnu sylw at yr hyn a oedd ar gael drwy ddatganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Byddai Mike Jones yn gweithio gyda grwpiau canol tref i roi cyfarwyddyd iddyn nhw am sut i gael gafael ar wybodaeth
- Gwiriodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a'r Gwasanaethau Cefn Gwlad gyda Llywodraeth y DU pa gynlluniau sydd ar gael ar gyfer pobl hunangyflogedig ac i roi cyhoeddusrwydd i'r rhai a oedd ar gael.

Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - yn amodol ar yr arsylwadau a'r awgrymiadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, cefnogi swyddogion o ran y gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas â chefnogi busnesau o fewn y Sir a'u cyfraniad parhaus at waith adferiad economaidd rhanbarthol mewn partneriaeth â Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru (LIC).

Ar yr adeg hon (11.15 am) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.25 am.

6 YMGORFFORI FFYRDD NEWYDD O WEITHIO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol, y Cynghorydd Richard Mainon, yr adroddiad Ymgorffori Ffyrdd Newydd o Weithio (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cafodd nifer o swyddogaethau'r Cyngor eu darparu'n llwyddiannus drwy weithio dros y we yn ystod y pandemig. Roedd y defnyddwyr a oedd yn cyrchu systemau'r Cyngor fwy neu lai wedi codi yn ystod y pandemig o tua 200 y dydd hyd at bron i 1600. Roedd y mwyafrif o gyfarfodydd, gweithredol a democrataidd, yn rhai dros y we ar hyn o bryd.

Roedd buddion gweithio fel hyn wedi lleihau effaith carbon y Cyngor oherwydd bod milltiroedd busnes a theithio i gyfarfodydd wedi lleihau. Roedd tagfeydd traffig lleol a'r llygredd dilynol wedi gostwng, ac roedd gweithio o gartref wedi gwella'r cydbwysedd gwaith a bywyd i nifer o bobl, staff ac Aelodau fel ei gilydd.

Oherwydd hyn, cynigiwyd y dylid parhau â'r dull hwn pan fydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol wedi dod i ben. Dylai'r mwyafrif o gyfarfodydd arferol fod dros y we a dylai gweithio gartref yn llawn amser / rhan amser fod y ffordd arferol o weithio.

Roedd yr holl fanylion yn llawn yn Atodiad yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei chytundeb gyda'r Aelod Arweiniol a nododd hefyd ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar y mwyafrif o staff. Roedd y staff wedi cael holiadur i gael nodi eu safbwyntiau ar y ffyrdd o weithio yn ystod y pandemig. Yr adborth gan staff oedd bod gweithio gartref yn dda i iechyd meddwl y mwyafrif o bobl, tra bod lleiafrif o'r farn nad oedd yn addas ar eu cyfer. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr hefyd na fyddai'r ffordd y mae pobl yn gweithio yn dychwelyd i'r ffordd yr oedd cyn y pandemig. Roedd gweithio gartref hefyd yn gwneud Cyngor Sir Ddinbych yn fwy deniadol fel cyflogwr oherwydd y gallai gweithwyr y dyfodol fod yn byw y tu allan i'r ardal gan y byddent yn gweithio gartref.

Yn dilyn yr holiadur, dywedodd y Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes wrth yr aelodau fod 80% o'r staff wedi nodi ei bod yn well ganddynt weithio gartref. Nododd staff hefyd ei bod yn amser newid y ffordd o weithio. Byddai canlyniadau'r holiadur yn cael eu trafod yn ystod cyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth y prynhawn yma. Roedd aelodau wedi cael holiadur hefyd yn ymwneud â'r ffordd o weithio yn y dyfodol. Byddai'r ymgynghoriad ag aelodau yn dod i ben yn ystod yr wythnos hon. Mae technoleg wedi gwella'n aruthrol ers dechrau'r cyfnod clo. Roedd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Richard Mainon, i ffurfio Gweithgor gydag aelodau i asesu canlyniadau holiaduron staff ac aelodau.

Yn ystod trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Lles meddylion staff sy'n byw eu hunain.
Cadarnhaodd swyddogion y gellid cael ffordd hybrid o weithio yn y dyfodol, gan rannu'r wythnos waith o bosibl rhwng y cartref a'r swyddfa. Byddai hefyd yn gadarnhaol i'r holl staff gwrdd yn y swyddfa neu leoliadau eraill i rwydweithio a dal i fyny gyda chydweithwyr.
- Gan fod llai o staff yn mynychu adeiladau swyddfa, cwestiynodd aelodau a fyddai posib gwerthu unrhyw adeiladau.
Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol y byddai adeiladau'r cyngor yn cael eu hadolygu yn y dyfodol, ond nad oedd hyn am ddigwydd dros nos.

- Yr effaith economaidd bosibl ar ganol trefi'r sir a busnesau lleol oherwydd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi oherwydd bod y Cyngor a staff cyflogwyr mawr eraill yn gweithio mwy o gartref
- Er mwyn cynorthwyo staff, roedd dau gynllun gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi lle gallai staff hawlio gostyngiad yn y dreth am weithio gartref neu gyflwyno hawliad pro-rata am filiau cartref.
- Cododd yr aelodau'r ffaith fod angen i'r cyfleuster cyfieithu fod ar waith yn ystod cyfarfodydd a chadarnhaodd swyddogion fod hyn yn y broses o gael ei drefnu a'i brofi ar hyn o bryd.
Byddai cyfarfodydd pwyllgor cyhoeddus dwyieithog yn cael eu cynnal drwy Zoom cyn hir.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r aelodau am eu sylwadau, yn enwedig o ran lles staff. Roedd rheolwyr mewn cyswllt rheolaidd gyda'u staff tra'n gweithio gartref. Ymddengys mai cydbwysedd hybrid o weithio yn y dyfodol oedd y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Gallai staff fynychu adeilad cyngor neu gyfleuster arall ar gyfer meithrin tîm neu rwydweithio ond byddai angen ail-ffurfweddu'r adeiladau. Dyma oedd y ffordd ymlaen.

Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod:

- (i) derbyn y wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â'r Cyngor yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio fel rhan o'r broses adfer; a***
- (ii) chefnogi'r cyfleoedd posibl i'r Awdurdod ymgorffori ffyrdd newydd a mwy effeithiol o weithio mewn arferion gwaith yn y dyfodol.***

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol. Atgoffwyd yr Aelodau y dylid llenwi'r ffurflen cynnig ar gyfer y pynciau craffu (atodiad 2) er mwyn i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu adolygu a dyrannu eitemau busnes.

Esboniodd y Cydlynnydd Craffu fod yr adroddiad yn ymddangos yn wahanol i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol arferol oherwydd ym mis Mehefin/Gorffennaf, cyfarfu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i edrych i mewn i sut i ailgychwyn y pwyllgor Craffu yn y dyfodol. Gwnaed penderfyniad i glirio'r blaenraglen waith o'r tri Pwyllgor Craffu a rhoi'r eitemau ar restr gadw.

Mae'r eitemau i'w cyflwyno ar gyfer y cyfarfod ar 26 Tachwedd fel a ganlyn:

- Cofrestr Risg Gorfforaethol
- Cynllun Corfforaethol 2020/21 (Chwarter 2)
- gyda'r pynciau sy'n weddill ar y rhestr gadw wedi'u hamserlennu fel y bo'n briodol

Y diweddar Gyngorydd Huw Jones oedd cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Buddsoddi Strategol. Gan fod hwn yn grŵp pwysig gyda phwerau i wneud penderfyniadau, gofynnwyd i benodi cynrychiolydd a dirprwy. Cyfarfu'r Grŵp yn fisol ar ôl y Cabinet. Cynigiwyd, felly, mai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad fyddai'r cynrychiolydd a'r dirprwy gynrychiolydd.

Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynodd y Pwyllgor:

- (i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod a chynnwys yr eitemau penodedig ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, cadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor; a***
- (ii) phenodi'r Cadeirydd i weithredu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Buddsoddi Strategol, gyda'r Is-gadeirydd yn gweithredu fel dirprwy gynrychiolydd ar y Grŵp pe bai'r Cadeirydd yn absennol***

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30 pm.